# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 8 Rhagfyr 2022

Amser: 09.16 - 12.29

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/13058

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Sioned Williams AS |
| Tystion: | Philip Blaker, Cymwysterau Cymru<br>David Jones, Cymwysterau Cymru<br>Dr Laura Arman, Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD)<br>Dr Rhian Barrance, Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Rosemary Hill (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Sian Hughes (Ymchwilydd)<br>Rebekah James (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Buffy Williams AS. Ni chafwyd dirprwy ar ei rhan.

## 2 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2021 - 2022

2.1 Holodd y Pwyllgor Gymwysterau Cymru ynghylch ei Adroddiad Blynyddol.

2.2 Cytunodd y Cadeirydd i unrhyw gwestiynau heb eu gofyn gael eu hanfon ar gyfer ymateb ysgrifenedig.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch - trafod y materion allweddol

5.1 Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol. Bydd adroddiad drafft yn cael ei drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

6.1 Trafododd yr Aelodau y flaenraglen waith a chytunwyd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion amrywiol yn ymwneud â theithio gan ddysgwyr; y gweithlu gofal plant, a cham-drin rhywiol. Cytunwyd hefyd ar ba feysydd yr hoffent weld rhagor o waith cwmpasu pellach ynddynt, a oedd yn cynnwys mynediad i blant a phobl ifanc anabl; ac ar gostau byw.

## 7 Gweithgareddau'r Pwyllgor - diweddariad ar lafar

8.1 Gan fod amser yn brin, gohiriwyd yr eitem hon i'w thrafod yn y cyfarfod nesaf.

## 8 Sesiwn friffio gan Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD)

8.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gan WISERD ar y gwaith y maent yn ei wneud ar yr astudiaeth aml garfan o ysgolion. Trafodwyd ffyrdd y gall y Pwyllgor fod yn rhan o'r gwaith hwn.